POLISI DETHOL GWEITHREDOL PDG7

Y SWYDDFA GYMREIG 1979-1997

Diwygiwyd Tachwedd 2005

1 Awdurdod

1.1 Cyhoeddodd datganiad polisi caffael a gwaredu'r Archifau Cenedlaethol fwriad yr Archifdy o ddatblygu Polisïau Dethol Gweithredol ar draws y llywodraeth. Byddai'r polisïau hyn yn cymhwyso'r themâu casglu a ddisgrifir yn y datganiad i gofnodion adrannau a chyrff unigol.

1.2. Bwriad Polisïau Dethol Gweithredol yw bod yn arfau gwaith i'r sawl sy'n ymwneud â dethol cofnodion cyhoeddus. Felly, gellir adolygu a diwygio'r polisi hwn yng ngoleuni sylwadau a dderbynnir gan ddefnyddwyr y cofnodion neu weithwyr proffesiynol ym maes archifau, profiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ddefnyddio'r polisi, neu o ganlyniad i wybodaeth sydd newydd ymddangos. Nid oes cylch adolygu ffurfiol, ond croesawn sylwadau unrhyw adeg. Bydd maint unrhyw ymarferiad adolygu a diwygio yn cael ei bennu yn ôl natur y sylwadau a dderbynnir.

1.3 Os oes gennych unrhyw sylwadau am y polisi hwn, e-bostiwch hwy at records-management@nationalarchives.gov.uk neu ysgrifennu at:

Rheolwr Polisi Caffael a Gwaredu
Adran Rheoli Cofnodion
Yr Archifau Cenedlaethol
Kew
Richmond
Surrey
TW9 4DU

2 Sgôp

2.1 Mae'r Polisi Dethol Gweithredol hwn yn ymwneud â'r cyfnod 1979 (dechreuad gweinyddiaeth gyntaf Thatcher yn dilyn y refferendwm cyntaf ar ddatganoli) tan 1997, pryd y daeth y Blaid Lafur i rym.

2.2. Erbyn 1979, roedd y Swyddfa Gymreig wedi cael y cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o feysydd polisi. Y prif eithriadau oedd polisi tramor, amddiffyn y deyrnas, cynnal cyfraith a threfn, (gan gynnwys gweinyddu cyfiawnder), a threthu uniongyrchol.

2.3 Nid yw'r Polisi Dethol Gweithredol hwn yn ymdrin â'r agweddau ar y swyddogaethau hynny lle'r oedd y Swyddfa Gymreig yn dilyn arweiniad Whitehall yn gyfan gwbl. Ymdrinnir â'r rheini ym Mholisïau Dethol Gweithredol yr adran berthnasol yn Whitehall. Canolbwyntio y mae'r polisi hwn ar faterion sydd yn benodol i Gymru.

2.4 Nid yw'n ddatganiad oll-gynhwysol am yr holl gofnodion a fydd yn cael eu caffael, ond y bwriad yw iddo fod yn ganllaw clir i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn ag adolygu.

2.5 Dynododd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 fath newydd o gofnod cyhoeddus - cofnodion cyhoeddus Cymreig. Mae cofnodion cyhoeddus Cymreig yn cynnwys cofnodion y Swyddfa Gymreig a'r cyrff a noddir ganddi ac a oedd gynt yn gofnodion cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion Cynulliad etholedig Cenedlaethol Cymru. Mae rhestr o'r rhain i'w gweld yn a118 Deddf Llywodraeth Cymru.

3 Cyfrifoldebau'r Swyddfa Gymreig

3.1 Ym 1979, roedd gan y Swyddfa Gymreig gyfrifoldeb yng Nghymru dros swyddogaethau gweinidogion mewn perthynas â'r canlynol:

- Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol personol
- Addysg (ac eithrio telerau ac amodau gwasanaeth, dyfarniadau myfyrwyr a Phrifysgol Cymru)
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Llywodraeth leol
- Dŵr a charthffosiaeth
- Amddiffyn yr amgylchedd
- Amaethyddiaeth a physgodfeydd
- Defnydd tir, gan gynnwys cynllunio gwlad a thref
- Trefi newydd
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Ffyrdd
- Twristiaeth
- Rhai materion a oedd yn effeithio ar y gwasanaeth gyrfaoedd a gweithgareddau Comisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu yng Nghymru
- Gweithrediad Cronfa Ddatblygu Ewrop yng Nghymru
- Materion eraill y Gymuned Ewropeaidd (GE) sy'n ymwneud â Chymru
- Argyfyngau sifil
- Materion economaidd a chynllunio rhanbarthol yng Nghymru

3.2 Erbyn 1997, ychwanegwyd y swyddogaethau a ganlyn at y cylch gorchwyl hwn:

- Chwaraeon
- Cefn gwlad a chadwraeth natur
- Rhai materion yn ymwneud â'r Asiantaeth Hyfforddi yng Nghymru
- Coedwigaeth

Gwnaed newidiadau i sgôp rhai swyddogaethau:

- Roedd addysg bellach yn cynnwys cyfrifoldeb dros Brifysgol Cymru
- Ychwanegwyd "y celfyddydau" at yr iaith Gymraeg a diwylliant
- Ehangwyd y cyfrifoldeb am y gwasanaeth gyrfaoedd i gynnwys hyfforddiant

Ychwanegwyd cymorth ariannol i ddiwydiant at faterion economaidd

4 Themâu Casglu Perthnasol ym Mholisïau Caffael a Gwaredu yr Archifau Cenedlaethol

4.1. Mae datganiad y Polisi Caffael yn amlinellu'r themâu sy'n sail i benderfyniadau gwerthuso a dethol yr Archifau Cenedlaethol. O'r themâu hyn, gallai'r canlynol fod yn berthnasol i waith y Swyddfa Gymreig:

2.2.1 Polisi a phrosesau gweinyddol y wladwriaeth:
- 2.2.1.2 Rheoli'r economi
- 2.2.1.3 Cysylltiadau allanol a pholisi amddiffyn
- 2.2.1.5 Ffurfio a chyflwyno polisïau cymdeithasol
- 2.2.1.6 Polisi diwylliannol

2.2.2 Ymwneud y Wladwriaeth â'i dinasyddion ac effaith hynny ar yr amgylchedd ffisegol:
- 2.2.2.1 Cyflwr economaidd, cymdeithasol a demograffig y DG, fel y tystir iddo gan ymwneud y wladwriaeth ag unigolion, cymunedau a sefydliadau y tu allan i 'w ffiniau ffurfiol ei hun
- 2.2.2.2 Effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol

4.2 Mae datganiad y Polisi Gwaredu yn nodi cofnodion y mae'n fwy addas eu hadneuo mewn archifdai eraill neu eu cyflwyno iddynt fel rhodd. Dyma baragraffau yn y datganiad sydd yn berthnasol i gofnodion a grëir gan y Swyddfa Gymreig:

2.2.1 Archifdai lleol ar gyfer cofnodion prosiectau sy'n ymwneud ag ardaloedd daearyddol penodol yng Nghymru

2.2.3 Archifdai mwy arbenigol ar gyfer cofnodion Cadw sy'n berthnasol i safleoedd

2.2.5 Cofnodion a gedwir ar gyfryngau arbenigol ar gyfer y casgliad o luniau o Gymru o'r awyr a gynhyrchir gan yr Arolwg Ordnans ac a roddir yn rheolaidd ar adnau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays lle y defnyddir hwy at ddibenion gweinyddol ac ymchwil. (D.S. Ni ymdrinnir â'r cofnodion hyn mewn man arall yn y Polisi Dethol Gweithredol hwn)

4.3 Oni nodir i'r gwrthwyneb, mae'r cofnodion a ddetholir i'w cadw yn barhaol yn ymwneud â phenderfyniadau polisi a wnaed gan y Swyddfa Gymreig ac nid â ffeiliau achos na phapurau eraill nas cofrestrwyd.

5 Themâu ar gyfer Dethol

Ymysg cyfrifoldebau craidd y Swyddfa Gymreig, roedd y themâu a restrir isod yn meddu ar arwyddocâd arbennig yn ystod y cyfnod 1979 i 1997. Nid oes arwyddocâd i drefn y themâu. Roedd rhai ohonynt yn gyfrifoldebau traws-adrannol o fewn y Swyddfa Gymreig.

5. 1 Y Swyddfa Breifat

5.1.1 Nid oedd Swyddfa Breifat Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i weinidogion yn cadw ei gyfres ffeil ei hun. Yr arfer yn y Swyddfa Gymreig oedd i anfon holl bapurau'r Swyddfa Breifat at yr adran briodol i'w ffeilio yn y ffeiliau adrannol. Bydd cofnodion dethol yn cael eu cymryd o'r ffynhonnell hon.

5.2 Amaethyddiaeth

Ymdrinnir â'r thema hon yn adrannau 2.2.1 a 2.2.2 yn y Polisi Caffael, sef yr adrannau sy'n ymwneud â phrosesau gweinyddol y wladwriaeth ac ymwneud y llywodraeth â'r unigolyn. Nodir is-adran berthnasol y Polisi Caffael mewn cromfachau ar ddiwedd pob paragraff.

5.2.1 Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am bolisi amaethyddol o'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (WAPB) i'r Swyddfa Gymreig rhwng 1968, pan sefydlwyd Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig (AASG), a 1978. Yn ystod y cyfnod yr ymdrinia'r Polisi hwn ag ef, roedd y Swyddfa Gymreig yn gyffredinol yn dilyn arweiniad y WAPB, ond roedd nifer o feysydd a oedd yn fwy uniongyrchol berthnasol i Gymru. Ymhlith y rhain roedd: cysylltiadau â'r Gymuned Ewropeaidd; gweinyddiad amryw o raglenni grantiau; cynlluniau i hybu ffermio yng Nghymru; diwydiant pysgota Cymru; coedwigaeth yng Nghymru; a mentrau i gyflwyno arferion amaethyddol mwy amgylcheddol-gyfeillgar .

5.2.2. Ffermydd bugeiliol bychain yw nodwedd bennaf diwydiant amaethyddol Cymru. Ffermio defaid yw'r agwedd bwysicaf, ond y mae gwartheg yn bwysig mewn mannau yn ne-orllewin Dyfed. Ceir ffermio mynydd mewn rhannau helaeth o ganolbarth Cymru, a chydnabu AASG mor bwysig yw cynnal cefn gwlad sy'n amgylcheddol fregus. Roedd coedwigaeth hefyd yn economaidd bwysig, ac roedd y Swyddfa Gymreig yn rhannu'r cyfrifoldeb amdani gyda'r Comisiwn Coedwigaeth. Fel yng ngweddill Prydain, bu'r diwydiant pysgota ar drai ers nifer o flynyddoedd, ac erbyn y cyfnod y mae'r Polisi hwn yn berthnasol iddo roedd wedi ei ganoli yn ardal Aberdaugleddau'n bennaf.

5.2.3. Rhan bwysig o waith Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig oedd gweinyddu cynlluniau grant a sefydlwyd gan y llywodraeth ganolog, y Swyddfa Gymreig a'r Gymuned Ewropeaidd. Bydd cofnodion sy'n ymwneud â materion polisi ynglŷn â'r cyfryw grantiau'n cael eu cadw; dinistrir y rhai sy'n ymwneud â grantiau unigol, ac eithrio'r achosion penodol a arweiniai at newid polisi. (2.2.1.2)

5.2.4 Manteisiodd y Swyddfa Gymreig ar wasanaethau a ddarparwyd gan y Gymuned Ewropeaidd (CE), a hynny'n aml trwy ei amrywiol asiantaethau. Yng Nghymru, Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig fu'n gyfrifol am fabwysiadu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Detholir cofnodion sy'n

ymwneud â chyswllt uniongyrchol y Swyddfa Gymreig â'r Gymuned Ewropeaidd, ac â gweithredu'r PAC. (2.2.2.1)

5.2.5 Roedd adran ar wahân y tu mewn i AASG yn gyfrifol am iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys hylendid cig a monitro lladd-dai. Erbyn y 1990au, yr adran hon oedd yn gyfrifol hefyd am ymdrin â llygredd amgylcheddol a achosid gan arferion ffermio neu a oedd yn effeithio arnynt. Yn rhai o'r meysydd hyn, byddai AASG wedi dilyn arferion a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ond roedd nifer o agweddau a oedd yn arbennig o bwysig yng Nghymru. Ymysg y rhain roedd effeithiau plaleiddiaid a chanlyniadau haint BSE. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn. Un peth a fu'n berthnasol iawn i ffermio yng Nghymru oedd y ffrwydriad yn atomfa Chernobyl yn yr Wcrain fis Ebrill 1986. Cafodd yr ymbelydredd a ddaeth yn sgîl hyn effaith ar unwaith ar ffermio defaid yng Nghymru a pharhaodd yr effaith am amser hir iawn. Detholir cofnodion AASG parthed adnabod a datrys y problemau hyn (2.2.1.5 a 2.2.1.2)

5.2.6 Roedd yr adran a oedd yn gyfrifol am iechyd anifeiliaid yn gyfrifol hefyd am bolisi ar gyfer diwydiant pysgota Cymru. Bu'r diwydiant pysgota ar drai ers amser maith, fel y bu mewn mannau eraill ym Mhrydain. Yng Nghymru, roedd wedi ei ganoli yn ardal Aberdaugleddau'n bennaf, er bod pysgota masnachol yn dal i ddigwydd yng Ngogledd Cymru a Phenrhyn Gŵyr. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi AASG ar gyfer hybu'r diwydiant, yn yr achosion hynny lle ceir elfen Gymreig arwyddocaol. Dichon y bydd y pynciau a fydd yn cael eu trin yn cynnwys: cadwraeth a rheoli stoc; gwelliannau i gyfleusterau harbwr a marchnata; a datblygu pysgodfeydd dŵr croyw. Lle bo cofnodion sy'n berthnasol i ardaloedd penodol yn unig, cyflwynir y rhain i'r archifdy lleol priodol. (2.2.1.2)

5.2.7 AASG oedd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer argyfyngau cenedlaethol a sifil yng Nghymru. Yn bennaf, golygai hyn gynnal a dosbarthu stociau o fwyd yng Nghymru a chydgordio gweithgareddau adrannau eraill y Swyddfa Gymreig. Roedd yr Adran yn gyfrifol am benderfyniadau polisi a oedd yn ymwneud â storio a dosbarthu stociau o fwyd a chynllunio ar gyfer rheoli'r nifer fawr o ffoaduriaid disgwyliedig a ddeuai o rannau eraill y Deyrnas Gyfunol. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn. (2.2.1.3)

5.3 **Cynllunio Economaidd**

Ymdrinnir â'r thema hon yn adrannau 2.2.1 a 2.2.2 y Polisi Caffael sef yr adrannau sy'n ymwneud â phrosesau gweinyddol y wladwriaeth ac ymwneud y llywodraeth â'r unigolyn. Nodir is-adran berthnasol y Polisi Caffael mewn cromfachau ar ddiwedd pob paragraff.

5.3.1 Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Economaidd y Swyddfa Gymreig yn wreiddiol er mwyn darparu gwasanaethau i Gyngor Economaidd Cymru a Chyngor

Cymru. Wedi i'r olaf o'r ddau hyn gael ei ddirwyn i ben ym 1979, daeth y Grŵp yn gyfrifol hefyd am ddatblygu economaidd yn y Swyddfa Gymreig. Swyddogaeth yr adrannau a oedd yn rhan o'r grŵp oedd cydgordio polisïau ym meysydd cynllunio economaidd, cynllunio defnydd tir a chydgysylltu ag asiantaethau allanol gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, awdurdodau lleol, cwmnïau preifat ac unigolion.

5.3.2 Prif gyfrifoldeb y Grŵp Cynllunio Economaidd oedd cydgordio ymwneud uniongyrchol y Swyddfa Gymreig â'r UE a chynllunio ar gyfer y farchnad sengl Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys ffurfio polisi'r Swyddfa Gymreig tuag at Gronfa Strwythurol Ewrop, Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop a chronfeydd datblygu rhanbarthol eraill. Roedd ganddo gyfrifoldebau dros gynllunio a datblygu rhaglenni penodol y Gymuned Ewropeaidd, er, erbyn 1992, daethai'r rhai oedd yn ymwneud â diwydiant yn gyfrifoldeb i'r Adran Ddiwydiant. Detholir ffeiliau sy'n ymwneud â'r prif benderfyniadau polisi. (2.2.1.3)

5.3.3 Roedd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am ddatblygu polisïau rhanbarthol ar gyfer Gymru. Roedd yn gyfrifol am sefydlu parthau menter, gwasgaru adrannau'r llywodraeth a lleoli swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn. (2.2.1.2 a 2.2.2.1)

5.3.4 Roedd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am noddi Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (BDCW). Nid yw ADC na BDCW yn gyrff cofnodion cyhoeddus Cymreig, ac felly nid yw eu cofnodion yn dod dan oruchwyliaeth a chanllawiau'r Archifau Cenedlaethol. Ni wnaed trefniadau gwaredu ar gyfer cofnodion ADC; adneuwyd rhai BDCW yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

5.3.5 Detholir cofnodion sy'n darlunio'r datblygiad a'r newidiadau a fu yn y berthynas rhwng ADC a'r Swyddfa Gymreig. (2.2.1.2) Oherwydd nad oes sicrwydd am dynged cofnodion ADC, efallai y detholir copïau o gofnodion sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi a wnaed gan ADC. Mae'r rhain yn debyg o gynnwys y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddyfarnu grantiau, rheolaeth ariannol grantiau a chofnodion sy'n ymwneud â phrosiectau mawr. Yn benodol, detholir cofnodion a phapurau prif bwyllgorau ADC sydd yn dal ar gael yn ffeiliau'r Swyddfa Gymreig.

5.3.6 Roedd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am bolisi yn ymwneud â chyflogaeth a hyfforddi, gan gynnwys cyswllt gyda Chomisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu (CGG) a'i olynwyr. Roedd yn hybu menter leol, yn enwedig twf busnesau bychain. Erbyn dechrau'r 1990au, roedd yn ymwneud â phreifateiddio a dadreoleiddio, a chefnogodd yr Ŵyl Erddi Genedlaethol yng Nglyn Ebwy ym 1992. Detholir cofnodion sy'n ymwneud A rhan y Swyddfa Gymreig yn y gwaith hwn, gan gynnwys ffeiliau polisi sy'n dangos cyfraniad yr Ŵyl i ail-

ddatblygu'r Cymoedd. Cyflwynir cofnodion y Swyddfa Gymreig sy'n ymwneud â'r cynllunio a wnaed yn sgîl y penderfyniad hwnnw i Archifdy Gwent. (2.2.1.2 a 2.2.1.5)

5.4 **Cynllunio Defnydd Tir**

Ymdrinnir â'r thema hon yn isadrannau 2.2.1.2 a 2.2.2.2 y Polisi Caffael, sef yr adrannau sy'n ymwneud â rheoli'r economi ac effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol. Nodir rhif is-adran berthnasol y Polisi Caffael mewn cromfachau ar ddiwedd pob paragraff.

5.4.1 Bu cysylltiadau agos rhwng y Grwpiau Cynllunio Economaidd a'r Grwpiau Cynllunio Tir a'u holynwyr. Roedd y ddwy Adran Gynllunio yn gyfrifol am oruchwylio cynllunio dros Gymru gyfan. Cyfrifoldeb yr Adran Llywodraeth Leol oedd goruchwylio swyddogaethau a wnaed gan yr awdurdodau lleol (gweler 5.13 isod). Roedd y meysydd penodol yr ymdriniai'r Grŵp Cynllunio â hwy, y rhennid y cyfrifoldeb drostynt ar rai adegau gyda'r Grwpiau Datblygu Economaidd, yn cynnwys adfywio trefol a gwledig, yn enwedig Menter y Cymoedd, Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd a gweithgareddau Bwrdd Croeso Cymru. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi a effeithiai ar yr holl fentrau uchod. Cyflwynir cofnodion sy'n ymwneud â gweithgareddau lleol yn y maes hwn i'r archifdy lleol priodol, a bwrw bod un yn amlwg yn addas. Trosglwyddwyd cofnodion Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd (nad oedd yn gorff cofnodion cyhoeddus Cymreig) eisoes i Archifdy Morgannwg. (2.2.1.2)

5.4.2 Maes arall pwysig a oedd yn rhan o weithgareddau'r Grŵp Cynllunio Defnydd Tir, yn enwedig yn ystod y 1980au, sef materion amgylcheddol. Erbyn dechrau'r 1990au, roedd llawer o'r swyddogaethau hyn wedi cael eu trosglwyddo i adrannau eraill y Swyddfa Gymreig, yn enwedig Adran yr Amgylchedd, ac ymdrinnir â hwy yn adran 5.14. Erbyn 1997, unig gyfrifoldebau'r Grŵp oedd y parciau cenedlaethol, hawliau tramwy cyhoeddus a thir comin. Detholir ffeiliau sy'n ymwneud â'r prif benderfyniadau polisi, yn enwedig y rhai sydd yn ymwneud â materion amgylcheddol. Caiff cofnodion sy'n ymwneud â chadwraeth cefn gwlad a'r defnydd ohono ar gyfer hamdden eu gwerthuso yn unol â'r canllawiau sydd yn y Polisi Dethol Gweithredol *Defnydd a Chadwraeth Cefn Gwlad at Ddibenion Hamdden.* (Er nad yw'r PDG hwnnw yn ymdrin â'r holl gyfnod y mae hwn yn ymdrin ag ef, dull cyffelyb a weithredir.) Mae'n bosibl y cyflwynir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi tuag at barciau cenedlaethol penodol i'r archifdy lleol priodol neu i'r parc cenedlaethol ei hun neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol os bydd eu hangen at ddibenion gweinyddol. (2.2.2.2)

5.5 **Safle Demograffig**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adrannau 2.2.1.2 a 2.2.2.1 y Polisi Caffael parthed rheoli'r economi a chyflwr demograffig y DG. Nodir yr is-adran briodol yn y Polisi Caffael mewn cromfachau ar ddiwedd pob paragraff.

5.5.1 Ers o leiaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu tuedd gref i ddiwydiant, ac yn ei sgîl, y boblogaeth, ymgasglu yn ne'r wlad. Bu'r duedd hon amlycaf yn yr ardal rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Cynyddodd y boblogaeth nid yn unig oherwydd mudo o ardaloedd gwledig Cymru, ond hefyd daeth mewnfudwyr yno o Loegr, Ewrop a gwledydd y Gymanwlad. Bu cynnydd yn y diwydiannau gwasanaeth megis bancio, cyllid ac yswiriant yn sgîl ydatblygiad hwn

5.5.2 Mae diboblogi cefn gwlad yn duedd sy'n parhau, a hynny er gwaethaf y twf mewn twristiaeth a'r ymdrechion i hybu diwydiannau traddodiadol, megis y diwydiant llechi, brethyn a gwneud dillad. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â ffurfio polisi'r Swyddfa Gymreig ar ddiboblogi gwledig a'r rhai sy'n ymwneud ag effaith y polisi hwnnw. (2.2.1.2.a 2.2.1.5)

5.5.3 Un o ffyrdd y Swyddfa Gymreig i geisio annog pobl i aros yn yr ardaloedd gwledig oedd ceisio sefydlu ystadau diwydiannol bychain mewn trefi yng ngogledd a chanolbarth Cymru o'r 1970au ymlaen. Parheid hefyd â'r arfer o sefydlu trefi newydd. Er i'r cynlluniau i sefydlu tref newydd yn Llantrisant y tu allan i Gaerdydd ym 1978 gael eu gollwng, datblygwyd y Drenewydd ym Mhowys yn ystod y cyfnod hwn, ac erbyn hyn, hi yw tref fwyaf y canolbarth. Detholir cofnodion sy'n berthnasol i ymwneud y Swyddfa Gymreig ag ail-ddosbarthu poblogaeth yng Nghymru. Gan Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig roedd y cyfrifoldeb dros weithredu penderfyniadau polisi, ac nid yw'r naill na'r llall yn gorff cofnodion cyhoeddus. Cyflwynir ffeiliau a phapurau anghofrestredig y Swyddfa Gymreig sy'n ymwneud â datblygiadau mewn meysydd penodol i'r archifdy lleol perthnasol. (2.2.1.5)

5.5.4 Cyfrifoldeb Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yw effaith symudiadau'r boblogaeth ar ffiniau seneddol; gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru (CFfLILC) mae'r cyfrifoldeb dros ffiniau llywodraeth leol. Mae CFfLILC wedi bod yn monitro maint rhanbarthau lleol (siroedd, dosbarthiadau a chymunedau) yn barhaus, a detholir cofnodion sy'n ymwneud â'i weithgareddau yn y maes hwn. O 1990 ymlaen, chwaraeodd CFfLILC ran fawr hefyd yn y gwaith o ad-drefnu siroedd Cymru, er mai'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaeth y prif benderfyniadau. Cynhyrchir Polisi Dethol Gweithredol dros swyddogaethau etholiadol a detholir cofnodion yn unol â'i ganllawiau.

5.6 **Diwydiant**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adrannau 2.2.1.2, 2.2.2.1 a 2.2.2.2 y Polisi Caffael sef yr adrannau sydd yn ymdrin â rheoli'r economi, cyflwr

economaidd y DG, ac effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol. Nodir is-adran berthnasol y Polisi Caffael mewn cromfachau ar ddiwedd pob paragraff.

5.6.1 Yn draddodiadol, cael ei ganoli mewn rhai ardaloedd fu hanes diwydiant yng Nghymru. Yn y de-ddwyrain roedd y pyllau glo, gweithiau cynhyrchu haearn a dur a'r diwydiannau trymion a oedd yn gysylltiedig â hyn, gyda maes glo arall yn ardal y ffin yn y gogledd-ddwyrain. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, cynyddodd y cynnyrch ac arweiniodd hynny at ffyniant ymddangosiadol wedi 1945. Roedd y ddau ddiwydiant ar drai trwy gydol ail hanner yr ugeinfed ganrif. Mae polisi diwydiannol y Swyddfa Gymreig wedi canolbwyntio ar ymdrechion i adfywio'r diwydiannau traddodiadol hyn a hybu mewnfuddsoddi a diwydiannau newydd, yn yr hen ardaloedd diwydiannol ac mewn ardaloedd mwy gwledig yn y canolbarth a'r gogledd.

5.6.2 Er na chaeodd y pwll glo dwfn diwethaf o eiddo Glo Prydain, Glofa'r Parlwr Du yng Ngogledd Cymru, tan 1996, lleihau'r oedd y cynnyrch ac roedd cau'r pyllau ledled y wlad yn bwnc llosg o'r 1950au ymlaen. Erys rhai pyllau drifft o hyd, ar raddfa fasnachol fechan fel arfer, yng Ngorllewin a De Cymru o hyd, yn ogystal â gweithfeydd glo brig, a weithredir ar raddfa fasnachol fwy. Cedwir ffeiliau'r Swyddfa Gymreig sy'n ymwneud â hybu arallgyfeirio yn y diwydiant hwn, ac felly hefyd y rhai sy'n dangos y bryder am ddirywiad y diwydiant (2.2.1.2.) Mae cofnodion gweithredol llawer o lofeydd Cymru wedi eu hadneuo yn yr archifdai lleol priodol, neu wedi eu cyflwyno iddynt.

5.6.3 Mae sefyllfa debyg wedi codi yn achos y diwydiant dur. Erbyn 1970, roedd diwydiant dur Cymru yn edwino, ac yn methu â chystadlu â Gorllewin yr Almaen a Siapan. Yn ystod 1975 a 1976, caeodd gwaith dur Glyn Ebwy, a chaewyd llawer o weithfeydd eraill erbyn 1979. Daeth cynhyrchu dur yng Ngwaith Dur John Summers yn Shotton yng ngogledd-ddwyrain Cymru i ben ym 1981, gan arwain at golli llawer o swyddi. Bu safle llai o lawer yn gweithredu fel gwaith gorffen ar gyfer dur a oedd yn cael ei gynhyrchu mewn mannau eraill yn y Deyrnas Gyfunol. Llwyddodd gwaith dur Llanwern a Phort Talbot i oroesi, ond dim ond oherwydd ad-drefnu sylweddol iawn, gan gynnwys diswyddo llawer o'r gweithlu. Detholir ffeiliau sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig a'i hymwneud ag effeithiau'r cau a'r ymdrechion i sefydlu diwydiannau eraill amgen. (2.2.1.2)

5.6.4 O'r 1960au ymlaen, gweithredodd y Swyddfa Gymreig bolisi o gyflwyno diwydiannau newydd mewn llawer rhan o Gymru. Rhoed pwyslais arbennig ar arallgyfeirio. Cyhoeddwyd bod de Cymru yn ardal ddatblygu; anogwyd buddsoddiadau o dramor – ac yn arbennig felly o Siapan - a cheisiwyd grantiau gan y Gymuned Ewropeaidd. Ers 1972, mae cwmnïau Siapaneaidd wedi sefydlu dros 20 o ffatrïoedd yng Nghymru; un o'r rhai cynharaf oedd ffatri Sony ym Mhen-y-bont ar Ogwr a sefydlwyd ym 1973.

Rhoddwyd grantiau i hybu'r datblygiad hwn. Detholir cofnodion polisi sy'n ymwneud â datblygu diwydiannau newydd yng Nghymru; felly hefyd rai ffeiliau achos arwyddocaol sy'n tystio i'r modd y gweithredwyd y polisi hwn. (2.2.1.2)

5.6.5 Arweiniodd y dirywiad yn y diwydiant glo a diwydiannau trwm eraill yng nghymoedd De Cymru at lawer o ddiweithdra ledled y rhan honno o'r wlad. Ym 1988, lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol Fenter y Cymoedd gyda'r nod o adfywio'r ardal honno. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â sefydlu'r prosiect hwn a chofnodion polisi ynglŷn â'i weithredu. (2.2.1.2)

5.6.6 Cafodd Aberdaugleddau ei adnabod fel lle a oedd â harbwr addas i gymryd tanceri olew, a chodwyd y derfynfa olew gyntaf erbyn 1961. Parhawyd i ddatblygu'r harbwr rhwng 1960 a 1980. Cododd nifer o faterion amgylcheddol yn sgîl y datblygiad hwn. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r datblygu diweddarach yn y gwaith puro a dosbarthu olew yn Aberdaugleddau. (2.2.1.2, 2.2.2.2)

5.6.7 Bu darganfod olew ym Môr y Gogledd yn y 1960au yn sbardun i ymdrechion i ddarganfod ffynhonnell debyg yn y Môr Celtaidd. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi a chefnogaeth y Swyddfa Gymreig yn y maes hwn. (2.2.1.2)

5.6.8 Ymchwiliwyd i ddulliau eraill o gynhyrchu ynni. Arweiniodd hyn at sefydlu atomfeydd yn Nhrawsfynydd, Meirionnydd, a'r Wylfa ar Ynys Môn. Er bod yr Wylfa'n dal i redeg, caewyd Trawsfynydd ym 1993. Cyflwynwyd nifer o gynlluniau trydan dŵr yn y canolbarth, ac yn ddiweddarach, gwnaed arbrofion i hybuffermydd gwynt. Detholir ffeiliau sy'n ymwneud â pholisi ac ymwneud y Swyddfa Gymreig parthed y datblygiadau hyn a'i hymglymiad ynddynt. (2.2.1.2, 2.2.2.2)

5.7 **Hyfforddi Galwedigaethol**

Ymdrinnir â'r thema hon yn adran 2.2.1.5 y Polisi Caffael, sef ffurfio a chyflwyno polisïau cymdeithasol.

5.7.1 Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros hyfforddi galwedigaethol yng Nghymru o Grŵp yr Adran Gyflogaeth ym 1992. Roedd cyfrifoldebau newydd y Swyddfa Gymreig yn cynnwys cynhyrchu polisi o ran cynlluniau hyfforddi ieuenctid, prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol, cyflwyno a monitro Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQau) a darparu gwasanaeth gyrfaoedd. Sefydlwyd Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHMau) ym 1989, a ddaethant yn gyfrifoldeb yr Adran Ddiwydiant. Mewn llawer achos, buasai'r polisïau a ddatblygwyd yn y maes hwn yn debyg i'r rhai a ddatblygwyd yn Lloegr. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn yn unol â'r Polisi Dethol Gweithredol a gaiff ei lunio i

ymdrin â gwaith yr Adran Gyflogaeth. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Swyddfa Gymreig.

5.8 **Twristiaeth**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adrannau 2.2.1.2 a 2.2.2.1 y Polisi Caffael, sef yr adrannau sy'n ymwneud â rheoli'r economi, ac effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol.

5.8.1. Mae twristiaeth wedi bod yn bwysig yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, ac mae wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan y llywodraeth. Nid yw Bwrdd Croeso Cymru yn gorff cofnodion cyhoeddus, ond detholir cofnodion sy'n ymwneud â pherthynas y Swyddfa Gymreig â'r Bwrdd.

5.9 **Addysg a Hyfforddiant**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.5 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud â ffurfio a datblygu polisïau cymdeithasol.

5.9.1 Erbyn 1979, roedd gan y Swyddfa Gymreig gyfrifoldeb llawn dros addysg yng Nghymru ac eithrio cyllido addysg uwch. Dilynodd hyn ym 1992, pan sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Am ran helaeth o'r cyfnod hwn, dilynodd addysg yng Nghymru yr un patrwm ag addysg yn Lloegr, er bod gwahaniaethau o bwys. Y pwysicaf o'r rhain yw defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Cyflwynwyd mwy o hanes penodol Gymreig, a diwylliant a llenyddiaeth Cymru, wrth addysgu. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â hybu'r diwylliant Cymreig a'r defnydd o'r iaith Gymraeg ledled y sector addysg.

5.9.2 Y digwyddiad pwysicaf, ym myd addysg yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn y cyfnod yr ymdrinnir ag ef gan y Polisi Dethol Gweithredol hwn oedd pasio Deddf Diwygio Addysg 1988. Cafodd hyn effaith sylfaenol yn y ddwy wlad ar drefniadaeth addysg. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r newidiadau a ddaeth yn sgîl y Ddeddf mewn Polisïau Dethol Gweithredol yn y dyfodol. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â mewnbwn y Swyddfa Gymreig i'r ddeddfwriaeth hon.

5.9.3 Cafodd addysgu'r Cymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg hwb pellach pan gyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn sgîl Deddf Diwygio Addysg 1988. Cyngor Cwricwlwm Cymru oedd yn gyfrifol am ymdrin â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru rhwng 1988 a1992, ac wedyn, yn dilyn Deddf Addysg 1992, Cyngor Cwricwlwm ac Asesu Cymru (1992-1998). Detholir cofnodion a phapurau'r cyrff hyn a rhai eu his-bwyllgorau a'u paneli pwnc sy'n ymdrin ag addysgu daearyddiaeth, hanes ac addysg grefyddol yng Nghymru gan fod gwahaniaethau sylweddol rhwng cynnwys y cwricwlwm yng Nghymru ac yn Lloegr.

5.9.4 Nid oedd cyflwyno ysgolion a gynhelid â grant yn sgîl Deddf 1988 mor bwysig yng Nghymru ag yr oedd yn Lloegr, gan mai ychydig iawn o ysgolion a bleidleisiodd i gael eu cynnal â grant, er gwaethaf anogaeth y Swyddfa Gymreig. Er bod darpariaeth yn Neddf Addysg 1993 ar gyfer Asiantaeth Gyllido Ysgolion yng Nghymru, ni fanteisiwyd ar y cyfle i'w sefydlu. Detholir cofnodion sy'n ymdrin ag ymwneud y Swyddfa Gymreig ynn yr ymgyrch i geisio sefydlu ysgolion a gynhelid â grant yng Nghymru. Detholir ffeiliau achos sy'n ymwneud ag ysgolion unigol a drodd at gael eu cynnal â grant, neu a ystyriai gymryd y cam hwnnw.

5.9.5 Trwy gydol y cyfnod ac am rai blynyddoedd cynt, bu peth trafod am ffurf trefniadaeth Prifysgol Cymru – a ddylai fod yn ffederasiwn o golegau unigol neu'n un brifysgol ganoledig. O bryd i'w gilydd, bu'r Swyddfa Gymreig, ac wedi 1992, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn ymwneud â'r trafodaethau hyn. Detholir cofnodion polisi, o'r naill sefydliad a'r llall, sy'n ymwneud â rhan y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Cyllido yn y trafodaethau hyn.

5.10 **Materion Diwylliannol, gan gynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.6 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud â pholisi diwylliannol.

5.10.1 Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am faterion diwylliannol eang, ac eithrio cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg, o'r Adran Addysg i Adran Addysg y Swyddfa Gymreig ym 1992. Roedd y swyddogaethau newydd hyn yn cynnwys noddi'n ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chyd-drafod â hwy. Ymhlith meysydd cyfrifoldeb eraill ceid llyfrgelloedd cyhoeddus, darlledu, chwaraeon a gweithgareddau hamdden eraill. Roedd hefyd yn cydlynu buddiannau Cymreig o ran y Loteri Genedlaethol.

5.10.2 Trwy gydol y cyfnod y mae'r Polisi Dethol Gweithredol hwn yn ymdrin ag ef, roedd hybu'r iaith Gymraeg mewn meysydd ar wahân i addysg yn bwysig dros ben. Ers 1967, roedd defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyfathrebu swyddogol yn ddewisol, nid yn orfodol yn ôl y gyfraith Gwnaed hynny'n orfodol gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a roes i'r Gymraeg statws cyfartal â'r Saesneg. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig o ran yr iaith Gymraeg, drafftio Deddf yr Iaith Gymraeg a'i hynt trwy'r Senedd, a'i gweithredu a'i dehongli.

5.10.3 Mater a oedd â chysylltiad agos â hybu'r iaith Gymraeg oedd sefydlu sianel deledu Gymraeg, S4C. Cedwir ffeiliau sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig ar ddarlledu yn y Gymraeg. Detholir ffeiliau polisi sy'n amlygu'r modd yr hybodd y Swyddfa Gymreig agweddau eraill ar y celfyddydau yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys sefydlu a chyllido

Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Cymru, hybu llenyddiaeth Gymraeg, a chefnogi eisteddfodau cenedlaethol a rhyngwladol.

5.10.4 Mae chwaraeon, yn enwedig rygbi, yn rhan bwysig o'r diwylliant Cymreig. Yn ystod y cyfnod hwn, ceisiai Cymru gynnal cysylltiadau chwaraeon gyda De Affrica ac fe baratowyd cynlluniau ar gyfer Stadiwm newydd y Mileniwm yng Nghaerdydd. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig ar y ddau fater hyn.

5.11 **Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.5 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud â llunio a chyflwyno polisïau cymdeithasol.

5.11.1 Erbyn 1979, roedd gan y Swyddfa Gymreig gyfrifoldeb llawn am faterion iechyd yng Nghymru. Mewn llawer maes o fewn eu gwaith, roedd yr Adrannau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol yn gweithredu'n debyg i'r Adran Iechyd yn Lloegr. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â materion iechyd yng Nghymru yn unol â'r canllawiau a roddir mewn Polisi Dethol Gweithredol a fydd yn ymdrin ag iechyd ac a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law. Detholir cofnodion polisi sy'n ymwneud â materion o bwys neilltuol yng Nghymru, sef polisi'r Swyddfa Gymreig parthed clefydau galwedigaethol megis silicosis, problemau sy'n codi o'rffaith fod y boblogaeth yng Nghymru wledig yn heneiddio a'r trefniadau o ran meddygon teulu ac ysbytai mewn ardaloedd sydd ag anawsterau cludiant a chyfathrebu.

5.11.2Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am y gwasanaethau cymdeithasol, a oedd â chysylltiad agos ag iechyd, i'r Swyddfa Gymreig ar yr un pryd â'r cyfrifoldeb am iechyd. Dilynir ar gyfer Cymru y meini prawf ar gyfer dethol sydd yn y Polisi Dethol Gweithredol perthnasol ar Weinyddu Nawdd Cymdeithasol (PDG 5).

5.11.3 Ym 1996, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cynhelid ymchwiliad i honiadau am gam-drin plant mewn cartrefi preswyl yng ngogledd Cymru. Eisteddodd Tribiwnlys Cam-drin Plant Gogledd Cymru, a ddeilliodd o hyn, o fis Ionawr 1997 hyd 1998, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yn 2000. Detholir cofnodion y Tribiwnlys yn eu cyfanrwydd, er y dylid nodi y bydd tystiolaeth ddogfennol a gyflenwyd gan yr awdurdodau lleol wedi ei dychwelyd atynt. Detholir ffeiliau'r Swyddfa Gymreig yr ymgynghorodd y Tribiwnlys â hwy, yn ogystal â ffeiliau sy'n ymwneud â gweithgaredd y Swyddfa Gymreig cyn sefydlu'r Tribiwnlys.

5.12 **Tai yng Nghymru**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.5 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud â ffurfio a chyflwyno polisïau cymdeithasol.

5.12.1 Roedd y cyfrifoldeb dros holl swyddogaethau tai'r Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol, ac Adran yr Amgylchedd, wedi eu trosglwyddo i'r Swyddfa Gymreig erbyn 1974. Roedd y cyfrifoldebau yn debyg i rai Adran yr Amgylchedd, wrth ddethol ffeiliau o'r Swyddfa Gymreig yn dilyn meini prawf Polisi Dethol Gweithredol a gaiff ei ddatblygu i ymdrin â materion tai. Detholir ffeiliau sy'n ymwneud â materion o bwys arbennig yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys gwerthu tai cyngor i denantiaid, polisi ar dai gwledig a materion sy'n ymwneud â thai mewn pentrefi diwydiannol.

5.12.2 Roedd gan y Swyddfa Gymreig gyfrifoldebau cyllido dros ddau gorff cyhoeddus anadrannol, Awdurdod Tir Cymru a Thai Cymru. Nid oedd y naill na'r llall yn gyrff cofnodion cyhoeddus, ond ers 1997, cymerwyd Tai Cymru drosodd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a etifeddodd y cofnodion a oedd wedi goroesi. Diddymwyd Awdurdod Tir Cymru ym 1999 a throsglwyddwyd ei faes cyfrifoldeb i Awdurdod Datblygu Cymru. Cedwir rhai cofnodion polisi ynglŷn â pherthynas Adran Dai'r Swyddfa Gymreig â 'r sefydliadau hyn er mwyn dangos sut y gweithredodd y Swyddfa Gymreig ei chyfrifoldeb dros y swyddogaeth hon.

5.13 **Llywodraeth Leol**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.5 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud â ffurfio a chyflwyno polisïau cymdeithasol.

5.13.1 Y Swyddfa Gymreigo'i chychwyn oedd yn gyfrifol am ymdrin ag awdurdodau lleol. Prif ddyletswyddau'r Adran Llywodraeth Leol oedd goruchwylio refeniw a gwariant llywodraeth leol, ac roedd, felly, yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o gyflwyno'r Tâl Cymunedol ("Treth y Pen") ac, yn ddiweddarach, y Dreth Gyngor. Roedd yr Adran yn ymwneud hefyd â monitro terfynau arian, a chapio cyllidebau awdurdodau lleol lle'r oedd angen. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn yn unol â Pholisi Dethol Gweithredol a fydd yn cael ei lunio, ar waith Adran yr Amgylchedd a'i olynwyr parthed cyfrifoldebau ym maes llywodraeth leol.

5.13.2 Roedd yr Adran Llywodraeth Leol hefyd yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau awdurdodau lleol parthed cyflenwadau dŵr a gwaredu carthion. Yn yr un modd ag yn 5.13.1 uchod, bydd y dethol yn dilyn canllawiau a osodir i lawr mewn Polisi Dethol Gweithredol ynglŷn â gweithgareddau tebyg a gyflawnwyd gan Adran yr Amgylchedd.

5.13.3 O 1984 ymlaen, anogwyd awdurdodau lleol i osod llawer o swyddogaethau ar gontract i gyflenwyr preifat. Roedd Adran Gyllid Llywodraeth Leol yn gyfrifol am ffurfio polisi'r Swyddfa Gymreig yn y maes hwn, gan gynnwys ymateb i gyfarwyddebau caffael cyhoeddus y GE. Detholir ffeiliau polisi sy'n ymdrin â'r swyddogaethau hyn yn unol â chanllawiau'r Polisi Dethol Gweithredol ynglŷn â gweithgareddau cyffelyb a gyflawnwyd gan Adran yr Amgylchedd a'i holynydd. Hefyd, detholir ffeiliau

sy'n dangos pryder y Swyddfa Gymreig ynglŷn â nifer o hanesion am lygredd mewn awdurdodau lleol ddiwedd y 1970au.

5.13.4 Yn dilyn Deddf Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ffurfiwyd Adran Ad-drefnu Llywodraeth Leol i weithredu ei gofynion. Roedd yn gyfrifol am ofalu bod trosglwyddiadau ac iawndal i staff yn cael eu gweithredu'n deg. Roedd hefyd yn goruchwylio materion etholiadol, gan gynnwys noddi Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol (gweler para. 5.7.5 uchod). Gwnaed nifer o benderfyniadau yn y Swyddfa Gymreig ynglŷn â ffiniau llywodraeth leol, yn enwedig yng nghyswllt sefydlu'r awdurdodau unedol a'u maint. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn a'r trefniadau a wnaed i 'w cyflawni.

5.14 **Gwarchod yr Amgylchedd**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.2.2 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud ag effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol.

5.14.1 Yr Adran Amgylchedd oedd yn gyfrifol am ansawdd dŵr, ymdrin â gwastraff, llygru'r awyr, gwarchod yr arfordir a draenio tir. Erbyn canol y 1990au, roedd ei gyfrifoldebau ym maes llygredd wedi eu hymestyn i gynnwys ymdrin â llygredd y tir yn ogystal â llygredd yn yr awyr. Erbyn diwedd y cyfnod yr ymdrinia'r Polisi Dethol Gweithredol hwn ag ef, roedd y cylch gorchwyl hwn hefyd yn cynnwys ymchwil amgylcheddol a "chyd-gordio materion gwyrdd". Roedd yr Adran yn gyfrifol hefyd am oruchwylio cefn gwlad a chadwraeth natur, ac roedd yn noddi Cyngor Gefn Gwlad Cymru o 1991 ymlaen. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn yn unol â'r Polisïau Dethol Gweithredol sydd yn ymdrin â materion amgylcheddol.

5.15 **Trafnidiaeth a Phriffyrdd**

Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.5 a 2.2.2.2 y Polisi Caffael, sef yr adrannau sy'n ymwneud â ffurfio a chyflwyno polisïau cymdeithasol ac effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol.

5.15.1 Roedd y cyfrifoldeb dros faterion trafnidiaeth a phriffyrdd yn rhan o gylch gorchwyl gwreiddiol y Swyddfa Gymreig. Gan yr Adran Trafnidiaeth a Phriffyrdd yr oedd y cyfrifoldeb am ddylunio, adeiladu a chynnal traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. Roedd ganddi berthynas agos â'r awdurdodau lleol, a ddyrannai arian cyfalaf a grantiau i awdurdodau priffyrdd lleol ar gyfer ffyrdd sirol. Roedd hefyd yn rhoi cefnogaeth ariannol at ddibenion ffyrdd, cludiant cyhoeddus lleol i deithwyr a gweinyddiaeth y ffyrdd yn gyffredinol trwy gyfrwng y Grant Cynnal Trethi. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn yn unol â chanllawiau Polisi Dethol Gweithredol a gyhoeddir maes o law ac a fydd yn ymdrin â gwaith tebyg a wnaed gan yr Adran Drafnidiaeth a'i holynydd. Detholir rhai ffeiliau polisi sy'n ymwneud â phrosiectau ffyrdd penodol; bydd y rhain yn cynnwys

estyniad yr M4 yng Nghymru, Ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465) a Ffordd Arfordir Gogledd Cymru (A55).

5.15.2 Mae cysylltiadau rhwng y naill ran o Gymru a'r llall wedi bod yn anodd erioed. Rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain yn hytrach nac o'r gogledd i'r de y mae'r ffyrdd a'r rheilffyrdd. Mae'r broblem yn arbennig o ddrwg o ran y rheilffyrdd. Gwnaed sawl ymgais i ymestyn y rhwydwaith rheilffyrdd presennol, yn enwedig trwy gwblhau rheilffrordd ar hyd arfordir y gorllewin. Y prif symbyliad a oedd y tu ôl i'r ymdrechion hyn oedd ceisio annog diwydiant i ddod i'r ardaloedd mwy anghysbell a hybu twristiaeth. Bu hyn yn bwysig o ran ymestyn y rhwydwaith o reilffyrdd stêm preifat yn rhai o'r hen ardaloedd diwydiannol. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig o ran cefnogi'r mentrau hyn.

5.15.3 Yn y Rhws, y tu allan i Gaerdydd, y mae prif faes awyr Cymru. Datblygodd y Rhws o awyrenfa a chanolfan hyfforddi adeg y rhyfel i faes awyr masnachol cwbl ryngwladol erbyn 1980. Rhwng 1971 a 1995, awdurdodau lleol Morgannwg oedd yn gyfrifol amdano. Ym 1995, preifateiddiwyd y maes awyr. Detholir ffeiliau polisi am ymwneud y Swyddfa Gymreig â'r maes awyr hwn a meysydd awyr eraill Cymru, a os oes rhai'n bod.

5.16 **Cenedlaetholdeb Cymreig**

Ymdrinnir â'r pwnc hwn yn thema 2.2.2.1 y Polisi Caffael, sef yr adran sy'n ymwneud â chyflwr cymdeithasol a demograffig y DG.

5.16.1 Er i'r refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru gael ei gynnal ym 1979, sef cyn cyfnod y Polisi Dethol Gweithredol hwn, roedd effeithiau cynllunio ar gyfer sefydlu cynulliad i Gymru yn dal yn fater byw. Bydd ffeiliau sy'n ymwneud â'r ymdrech gyntaf i gyflawni datganoli wedi cael eu dethol eisoes, a chwblheir y broses honno trwy ddethol unrhyw ffeiliau sy'n ymwneud â'i methiant. Mae'n anhebygol i unrhyw ffeiliau o sylwedd ynglŷn â datganoli gael eu creu yn ystod blynyddoedd y llywodraeth Geidwadol, ond os oes rhai ar gael, fe'u detholir.

5.16.2 Ceir nifer o sefydliadau yng Nghymru sydd wedi bod yn gefnogol i fwy o hunanlywodraeth neu annibyniaeth lwyr. O bryd i'w gilydd, bu gan y Swyddfa Gymreig gysylltiad â'r grwpiau hyn. Detholir cofnodion sy'n dangos agwedd y Swyddfa Gymreig at faterion ynglŷn â datganoli neu annibyniaeth a godwyd gan y grwpiau hyn neu ynglŷn â'i hymateb i gamau a gymerwyd gan y grwpiau hyn i gefnogi eu hamcanion.

5.16.3 Er y cafwyd peth gweithgaredd gan derfysgwyr yn ystod y 1960au, daethai hyn i ben i raddau helaeth yn ystod y 1970au. Yn dilyn methiant datganoli ym 1979, enynnwyd gweithgareddau pellach. O fis Rhagfyr 1979 ymlaen, cafwyd ymosodiadau yng nghefn gwlad Cymru pan losgwyd eiddo fel protest yn erbyn cartrefi gwyliau, yn enwedig rhai a brynwyd gan Saeson.

Detholir cofnodion sydd yn ymdrin â'r ffordd yr ymatebodd y Swyddfa Gymreig i'r ymosodiadau hyn.

5.17 **Argyfyngau**

Ymdrinnir â'r pwnc hwn yn thema 2.2.2.2 o'r Polisi Caffael, sef yr adran sydd yn ymwneud ag effaith y wladwriaeth ar yr amgylchedd ffisegol.

5.17.1 Bylchwyd y morglawdd yn Nhywyn, Clwyd (Conwy bellach) fis Chwefror 1990, gan beri llifogydd difrifol dros fwy na 10 cilomedr sgwâr o'r ardal. Achosodd y storm hefyd ddifrod i adeiladau, dymchwelwyd coed a rhai o'r prif linellau pŵer, a throwyd cerbydau drosodd. Roedd llifogydd mewn llawer o dai ac nid oedd y gwasanaethau carthffosiaeth yn medru gweithio. Canlyniad hynny oedd llygredd difrifol, ac roedd rhaid symud pobl o'u cartrefi. Symudwyd y nifer fwyaf o'u tai, ond ar adeg rhyfel, ers yr Ail Ryfel Byd. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd ymdrin â'r argyfwng a'r gwaith achub a ddaeth yn ei sgîl. Cyfrifoldeb Rheilffyrdd Prydain oedd y morglawdd dan sylw; detholir cofnodion sy'n ymwneud â'u hymateb o gofnodion Rheilffyrdd Prydain. Comisiynodd y Swyddfa Gymreig arolwg o amddiffynfeydd arfordirol, a mynnodd y Senedd i'r Ysgrifennydd Gwladol roi mwy o ystyriaeth i sicrhau fod awdurdodau lleol a pherchnogion eraill yn cyflawni eu dyletswyddau'n gyflawn. Detholir cofnodion sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig ar amddiffyn yr arfordir. Eisoes, detholwyd cronfa ddata sy'n disgrifio amddiffyn arfordir Cymru, ac y mae ar gael yn Archif Ddigidol Genedlaethol Setiau Data (NDAD).

.

5.17.2 Ar 15fed Chwefror 1996, cafodd llong y *Sea Empress,* a oedd yn cludo dros 100,000 tunnell fetrig o olew crai, ddamwain ger y fynedfa i borthladd Aberdaugleddau. Am dridiau wedyn, cafodd ei tharo gan donnau mawrion, ac yn ystod yr amser hwnnw, arllwysodd 72,000 tunnell fetrig o olew crai i'r môr. Llygrwyd yr harbwr a'r arfordir cyfagos yn ddrwg. Yn sgîl hyn, cynhaliwyd ymchwiliad gan Uned Rheoli Llygredd Môr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, ac Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru a oedd yn gyfrifol am y gwaith glanhau. Detholir cofnodion o eiddo'r ddwy asiantaeth yn ymwneud â'r drychineb, ond detholir cofnodion hefyd sy'n dangos ymateb y Swyddfa Gymreig.

5.18 **Cadw**

5.18.1 Sefydlwyd Cadw: Henebion Hanesyddol Cymreig, ym 1991 fel asiantaeth weithredol "Camau Nesaf" y Swyddfa Gymreig. Roedd yn gyfrifol am warchod yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys rhestru, cofrestru a derbyn henebion i'w gwarchodaeth. Detholir cofnodion polisi sy'n ymwneud â'i sefydlu ac â'i phrif gyfrifoldebau. Detholir cofnodion gweithredol yn unol â Pholisi Dethol Gweithredol ar Gadwraeth yr Amgylchedd Adeiledig (PDG 17). Trosglwyddir cofnodion sy'n ymwneud â henebion yr ymdrinnir â hwy gan CADW i Gofnod Henebion Cenedlaethol

Cymru a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn Aberystwyth (2.2.3 y polisi gwaredu).

5.19 **Gweinyddu Canolog**
Ymdrinnir â'r thema hon yn is-adran 2.2.1.1 y Polisi Caffael, sef yr ardan sy'n ymwneud â phrosesau gweinyddol y wladwriaeth.

5.19.1 Roedd gan y Swyddfa Gymreig nifer o adrannau cyffredinol a oedd yn rhoi cefnogaeth a gwasanaethau i'r Adran. Yn ystod rhan gyntaf y cyfnod y mae'r Polisi Dethol Gweithredol hwn yn ymwneud ag ef, roedd arfer y Swyddfa Gymreig yn dilyn rheoliadau'r llywodraeth ganol. Gwaith beunyddiol arferol yw llawer o waith yr adrannau hyn, ac ni chedwir cofnod o'u gweithgareddau.

5.19.2 Dyma brif swyddogaethau'r adrannau hyn:

- Cynghori a briffio adrannau eraill o fewn y Swyddfa Gymreig: yn y rhan fwyaf o achosion, detholir cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth yn y categori hwn o ffeiliau'r adran gyfrifol ac nid o'r adran ganolog.
- Darparu ystadegau: detholir ystadegau o gofnodion yr adran sy'n gyfrifol am y swyddogaeth, er ei fod yn bosibl, yn achos ystadegau a gynhyrchir ar ffurf electronig, y cymerir deunydd cefndirol a thechnegol o'r adrannau ystadegol.
- Gweinyddiaeth y Swyddfa Gymreig: ni ddetholir cofnodion sy'n ymwneud â gwaith a threfniadaeth feunyddiol y Swyddfa Gymreig ac eithrio'r y canlynol:
  - cyfeiriaduron busnes sy'n cynnwys manylion am drefniadaeth fewnol ac enwau aelodau staff a oedd yn gyfrifol am swyddogaethau penodol
  - cofnodion sy'n ymwneud â newidiadau i weithrediad y Swyddfa Gymreig o ganlyniad i ddatganoli'r gwasanaeth sifil; polisi cyllidebu dirprwyedig; amodau gwaith a chyflogau staff. Bydd dethol y cofnodion hyn yn sicrhau dilyniant gyda'r cofnodion diweddarach tebyg sy'n ymwneud â'r weinyddiaeth fwy annibynnol a ddaeth yn sgîl datganoli ym 1998
  - cofnodion sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gymreig parthed preifateiddio swyddogaethau gweinyddol a rheoli. Ni ddetholir cofnodion sy'n ymwneud â phrosiectau penodol i brofi'r farchnad
  - cofnodion sy'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus lle'r oedd buddiannau neu bryderon Cymreig yn faterion o bwys yn y broses ddethol. Ymhlith penodiadau o'r fath bydd cadeiryddion sefydliadau megis Awdurdod Datblygu Cymru a'r Asiantaethau Cyllido Cymreig.

5.19.3 Adrannau Cyllid: Sefydlodd y Swyddfa Gymreig nifer o adrannau a oedd yn ymdrin â materion ariannol. Roedd rhai ohonynt, yn ogystal ag ymdrin â'r agweddau ariannol ar redeg y Swyddfa Gymreig, yn ymwneud â'r

agweddau ariannol ar swyddogaethau craidd y Swyddfa. Roedd y rhain yn ymwneud yn arbennig ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol personol a llywodraeth leol, gan gynnwys y gyfundrefn drethi lleol. Ar adegau, roedd yr adrannau Cyllid yn rheoli goblygiadau ariannol prosiectau penodol. Gweinyddai grwpiau eraill o fewn y Swyddfa, er enghraifft Addysg a Thrafnidiaeth a Phriffyrdd, eu materion cyllidol eu hunain. Ni fwriedir derbyn cofnodion sy'n ymwneud â gweinyddiaeth gyllidol feunyddiol y Swyddfa Gymreig. Detholir cofnodion sy'n ymwneud ag Arolwg Gwariant Cyhoeddus y Swyddfa Gymreig o fysg cofnodion y Trysorlys. Bydd y trefniadau terfynol ar gyfer dethol cofnodion sydd yn ymwneud â phroses gyllidebol y llywodraeth yn unol â'r meini prawf sydd ym Mholisi Dethol Gweithredol Rheolaeth Gwariant y Llywodraeth (PDG 15).

5.19.4 Bydd holl gofnodion eraill y weinyddiaeth ganolog yn cael eu dinistrio onid ydynt yn ymwneud ag un o'r themâu allweddol a nodir yn y Polisi hwn.

6 Gweithredu'r Polisi Dethol

Gweithredir y polisi hwn trwy broses adolygu a hynny mewn dau gam:

1 Adolygiad cychwynnol o ffeiliau'r Swyddfa Gymreig fesul gyfres, gan ddefnyddio atodlenni cadw y cytunwyd arnynt gyda'r adran briodol; os na chytunwyd ar atodlen, gwneir adolygiad fesul ffeil neu ar bapur. Bydd cofnodion sydd yn ymwneud â themâu casglu'r polisi hwn yn cael eu hadnabod a'u gwahanu oddi wrth y ffeiliau nad ydynt yn ymwneud â hwy.

2 Bydd y ffeiliau sy'n perthyn i'r themâu casglu wedyn yn cael eu hail adolygio'n fanylach er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys deunydd lefel-uchel sy'n haeddu cael ei gadw. Cedwir golwg ar y ganran o ffeiliau a wrthodir o ganlyniad i'r archwiliad hwn; os bydd y ganran yn isel, gellir rhoi'r gorau i'r arfer.

Atodiad Un: Strwythur y systemau ffeilio a ddefnyddir gan y Swyddfa Gymreig

Pan etifeddodd y Swyddfa Gymreig swyddogaethau oddi wrth adrannau eraill y llywodraeth, etifeddodd hefyd eu staff a'u systemau ffeilio. Yn y rhan fwyaf o achosion, trosglwyddwyd swyddfa ranbarthol gyfan a barhâi i weithredu yn ôl ei harfer gan barhau hefyd i ddefnyddio'r un systemau. Ni chyflwynwyd cyfundrefn gofrestrfa gyflawn yn y Swyddfa Gymreig hyd y 1990au cynnar pan gafwyd system cofrestrfa electronig. Trwy gydol bodolaeth y Swyddfa Gymreig, crëwyd rhagddodiaid ffeil newydd wrth i unedau a swyddogaethau newydd gael eu cyflwyno. Arweiniai hyn at doreth o ragddodiaid, a rhai ohonynt mewn bodolaeth am am gyfnod byr yn unig. Roedd rhagddodiaid yn cael eu dyblygu ar draws y Swyddfa Gymreig. Weithiau, ceid dwy neu fwy o gyfresi mewn bodolaeth ar yr un pryd, yn ymwneud â'r un swyddogaethau, er eu bod yn perthyn i wahanol unedau, ac nid yw'n glir bellach pa adran oedd yr adran arweiniol.

Rhestrir isod y prif ragddodiaid polisi ar gyfer ffeiliau polisi yn y Swyddfa Gymreig. Dichon nad yw'r rhestr yn gyflawn, ac y mae'n bosibl hefyd fod rhai rhagddodiaid nad ydynt yn cynnwys unrhyw ffeiliau am y cyfnod yr ymdrinia'r Polisi Dethol Gweithredol hwn ag ef.

Tai – FHC; FMPR; FUR; H; HCE; HES; HGE; HSG; HH; LAND

Swyddfa Addysg y Swyddfa Gymreig – AE; AL; A/YW; EDB; EDT; EWL; FE; GES; HMI; INS; LEA; PSE; TT; W; WEO; WRS; WT; YW

Diwydiant - A; AM; DI; DIR; E; G; ID; REG; RP; RSI; SA

Cynllunio – APP; EP; P; PAC; PAA; PG; PLS; PP; RG; SD

Llywodraeth Leol - AP; AP/WS; DC; DW; DS; AP/WS; DC; DW; EP; EP/WS; G; G/WS;
GD; LA; LG; RAP

Grŵp Ad-Drefnu Llywodraeth Leol - LB; LCA; LGR

Cyllid Llywodraeth Leol – FVT; LCD; LVT

Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig – AAA; AAB; AAC; AAD; ABA; ABB; ABC; ABF;
AC; ADL; ADR; AHL; AHR; ALS; ARD; BNP; CAC; CYL; EGF; EL; FCS; FGB; FGC;
GAP; LDW; LGV; MAO; MSR; SGD; WOP

Iechyd – AHS; CAH; CH; CHN; DM; EHC; FPM; FPS; GHS; HAS; HBSS; HF; HL; HM;
HMWA; HP; HPB; HS; HSD; HSP; IHD; LASS; LS; MHS; MPB; MS; MISC; NAA; NHSR; PGS; PH; RM; SWS; SPB; XDE; XEC; XHP; XHQ; XVA; XX

Cadw – AA; ACS; ANC; CAM; CCB; CCE; CL; CPW; HB; MNA; P

Amgylchedd – EE; HW; LDC; LDS; WEP

Trafnidiaeth a Phriffyrdd – GF; GT; HL; HS; HT; MLA; R; RD; RDL; RDS; RDW; RL; RLM; RSU; RWT; TO; TRG; TRL; TRP; TRW; WT; ZA; ZB; ZC

Seneddol - B

Chwaraeon – G/SPR

Twristiaeth – WTB